

PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD A GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
7 GORFFENNAF 2022

Cofnodion cyfarfod o bell Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Iau, 7 Gorffennaf 2022.

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Robert Davies (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr: Gillian Brockley, David Coggins Cogan, Steve Cople, Alasdair Ibbotson, Ian Hodge, Gina Maddison, Roz Mansell, Ted Palmer, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Linda Thew ac Antony Wren.

DIRPRWYON: Y Cyngorydd Linda Thomas (yn lle Paul Johnson)

HEFYD YN BRESENNOL: Prif Swyddog (Llywodraethu), Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

1. PENODI CADEIRYDD

Yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol, nododd y Pwyllgor yn ffurfiol y dylid penodi'r Cyngorydd Rob Davies fel Cadeirydd y Pwyllgor.

2. PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r pwyllgor am enwebiadau ar gyfer Is-Gadeirydd y Pwyllgor.

Cynigodd y Cyngorydd Michelle Perfect benodi'r Cyngorydd Gillian Brockley fel Is-Gadeirydd ac fe eiliwyd hyn gan y Cyngorydd Vicky Perfect. Cynigodd y Cyngorydd Antony Wren enwebu'r Cyngorydd Ian Hodge fel Is-Gadeirydd ac fe eiliwyd hyn gan y Cyngorydd Roz Mansell.

Yn dilyn pleidlais ar gyfer y ddau Gyngorydd, cadarnhaodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) bod y Cyngorydd Gillian Brockley wedi'i hethol fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD:

Penodi'r Cyngorydd Gillian Brockley yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

3. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni dderbyniwyd unrhyw Ddatganiadau.

4. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr.

Cafodd y cofnodion eu cynnig fel cofnod cywir gan y Cynghorydd Ted Palmer a'u heilio gan y Cynghorydd Antony Wren.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi fel cofnod cywir.

5. ADOLYGU CYLCH GORCHWYL A CHYFLWYNIAD I WAITH Y PWYLLGOR

Wrth gyflwyno'r adroddiad, rhoddodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) wybodaeth gefndir ynghylch sefydlu Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd; sef Pwyllgor y Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn wreiddiol. Y Pwyllgor oedd yn gyfrifol am warchod y Cyfansoddiad, gan ddrafftio a fetio newidiadau i'r Cyfansoddiad ac ystyried yr Adroddiad Trosolwg a Chraffu Blynyddol a newidiadau a wneir gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a Phwyllgorau eraill cyn y Cyngor Sir. Mae pwyllgorau eraill, megis y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn adolygu rhannau o'r Cyfansoddiad yn rheolaidd ac yn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor hwn eu craffu, cyn iddynt gael eu mabwysiadu gan y Cyngor Llawn.

Dechreuodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y cyflwyniad a oedd yn cynnwys sleidiau ar y canlynol:

- Diben y sesiwn
- Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd
- Aelodaeth Pwyllgorau
- Swyddogaethau Pwyllgorau 1
 - Adolygiadau Hyfforddiant Datblygu Aelodau
 - Ystyried yr argymhellion gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol
 - Materion yn ymwneud â chefnogaeth Aelodau
 - Cydlynu'r rhaglenni gwaith ar gyfer y pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
- Swyddogaethau Pwyllgorau 2
 - Dynodi'r swydd i fod yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd statudol
 - Adolygiadau ac adroddiadau ar gyflawni "Swyddogaethau Gwasanaethau Democrataidd"
 - Gwneud penderfyniadau ar hawl aelod i absenoldeb teuluol dan y rheoliadau perthnasol
- Gwaith y Pwyllgor
- Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) bod y cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor hwn wedi'i atodi i'r rhaglen er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD:

Nodi gwaith y Pwyllgor.

6. MABWYSIADU MODEL CENEDLAETHOL Y CYFANSODDIAD

Wrth gyflwyno'r adroddiad hwn, eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) nad oedd hi'n ofynnol i awdurdodau lleol gael dogfen cyfansoddiad cyn Deddf Llywodraeth Leol 2000. Rhoddodd wybodaeth gefndir ynglŷn â sut y lluniwyd y Model Cenedlaethol yn 2014, a oedd yn caniatáu i Gyfansoddiad safonol gael ei ddefnyddio ar draws pob awdurdod. Yn dilyn cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, roedd hi'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnig crynodeb iaith eglur o'r Cyfansoddiad. Eglurodd bod cwmni cyfreithwyr wedi cael cyfarwyddyd i ddiweddarau'r model cenedlaethol cyn darparu canllaw iaith eglur. Ariennir hyn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Darparwyd rhestr o newidiadau hefyd i awdurdodau lleol eu hystyried a'u cymhwyso i'w cyfansoddiad eu hunain os oeddent yn wahanol i'r model cenedlaethol.

Awgrymodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) bod gweithgor o 5 o aelodau'r pwyllgor yn cael ei sefydlu ar gyfer ystyried y diwygiadau a diweddarau'r canllaw iaith eglur a'r model cenedlaethol. Byddent yna'n adrodd yn ôl i'r pwyllgor, a fyddai'n gwneud argymhelliad i'r cyngor llawn. Y Dirprwy Swyddog Monitro fyddai'n arwain hyn, ac roedd y Prif Swyddog (Llywodraethu) o'r farn y byddai'n dda i'r aelodau newydd gymryd rhan er mwyn darparu syniadau a safbwyntiau gwahanol. Cytunwyd y byddai'r Gweithgor yn cynnwys y Cynghorwyr Ted Palmer, David Coggins Cogan, Gina Maddison, yn ogystal â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Ted Palmer a'u heilio gan y Cynghorydd Michelle Perfect.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y 5 aelod a benodwyd i'r gweithgor yn ystyried y diweddariadau a'r diwygiadau i fodel cenedlaethol y cyfansoddiad a'r canllaw iaith eglur, cyn gwneud cynigion i'w mabwysiadu;
- (b) Bod y gweithgor yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Ionawr, gyda'r bwriad o gymeradwyo'r newidiadau mewn cyfarfod o'r Cyngor yn gynnar yn 2023; a
- (c) Bod dyddiad y Pwyllgor hwn ym mis Ionawr yn cael ei ddwyn ymlaen fel bod modd iddo ystyried argymhellion y gweithgorau cyn y cyfarfod o'r Cyngor ar 24 Ionawr 2023.

7. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y RHAGLEN GYNEFINO

Darparodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wybodaeth am y Rhaglen Gynefino ac mae'r cam cyntaf wedi'i gynllunio o amgylch 4 thema. Byddai cofnodion y sesiynau hyfforddi ar gael ar dudalen yr aelodau er gwybodaeth yn y dyfodol. Rhestrir gwybodaeth am bresenoldeb a'r pynciau a drafodwyd yn y sesiynau hyfforddi yn Atodiad 1 a 2 a chyfeiriodd Aelodau at Atodiad 3, sy'n darparu gwybodaeth am y sesiynau Briffio Aelodau a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd.

Roedd y Cynghorydd Antony Wren yn credu fod yr hyfforddiant yn amhrisiadwy a gwerthfawr, ond bod gormod o wybodaeth. Roedd yn falch y byddai cofnodion ar gael, fel elfen loywi.

Gofynnodd y Cynghorydd Steve Copple pryd fyddai'r cofnodion ar gael. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai gwefan yr Aelodau ar yr Infonet ym mis Medi, ond cytunodd i siarad â'r Cynghorydd Copple y tu allan i'r cyfarfod ac anfon dolenni ar gyfer yr un dan sylw.

Dywedodd y Cynghorydd Roz Mansell ei bod hi'n dymuno cael sgwrs â'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd hefyd, gan ei bod hithau wedi methu sesiynau.

Diolchodd y Cynghorydd Gina Maddison i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd am y rhaglen gynefino a dywedodd bod y gefnogaeth a ddarparwyd gan TG yn wych. Gofynnodd a fyddai'r Hyfforddiant Trwyddedu'n cael ei ddarparu eto ar gyfer y rhai a fethodd y sesiynau. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i siarad â'r Rheolwr Trwyddedu yr wythnos nesaf a rhoi adborth i'r pedwar aelod a fethodd yr hyfforddiant.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Ted Palmer a'u heilio gan y Cynghorydd Antony Wren.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn ystyried y Rhaglen Gynefino i Aelodau a gynhaliwyd ar ôl yr etholiadau, sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 - Amserlen y Sesiynau Cynefino Rhan a, ac Atodiad 2 - Amserlen Sesiynau Cynefino Rhan b; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn ystyried a chefnogi'r dull o Ddatblygu Aelodau ar gyfer gweddill blwyddyn y Cyngor, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 3 - Datblygiad Aelodau Cyngor Sir y Flint 2022/23.

8. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Wrth gyflwyno'r adroddiad i'w gymeradwyo, gofynnodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd am farn yr aelodau ynghylch yr eitemau sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol. Ychwanegodd y byddai angen ystyried yr Adroddiad Amseriad Cyfarfodydd a'r Adroddiad Strategaeth Gyhoeddus ac y byddai cyfle i'r Aelodau ychwanegu eitemau at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, gan ei fod yn cael ei adolygu ym mhob cyfarfod.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Ted Palmer a'u heilio gan y Cynghorydd Gillian Brockley.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn ystyried y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol drafft a chymeradwyo/ newid yn ôl yr angen; a

- (b) Rhoi awdurdod i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

9. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 3.10 pm)

.....
Y Cadeirydd